| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| DYDDIAD | **30 Tachwedd 2020** |
| TEITL | **Llythyrau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru** |
| PWRPAS | **Cyflwyno 2 lythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, dyddiedig 30 Medi 2020 -**<br>• **Cronfa gyfun ranbarthol Gogledd Cymru mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal (Atodiad 1)**<br>• **Cronfeydd cyfun rhanbarthol mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal (Atodiad 2)** |
| AWDUR | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**1.** Anfonwyd y llythyr gyntaf (**Atodiad 1**) gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at brif weithredwyr cynghorau Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, a Wrecsam, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn dilyn derbyn sylwadau ar ddyfyniadau allan o adroddiadau lleol i gynghorau Conwy a Sir Ddinbych oedd yn cynnwys cyfeiriad at Cyngor Gwynedd fel un o awdurdodau lleol rhanbarth gogledd Cymru.

**2.** Anfonwyd yr ail lythyr (**Atodiad 2**) gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Dr Andrew Goodall CBE, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru yn Llywodraeth Cymru, yn dilyn cwblhau dau adolygiad yn edrych ar ofal preswyl a nyrsio yng ngogledd Cymru, yn benodol yng nghyngorau Conwy a Sir Ddinbych.

**3.** Mae gan Archwilio Cymru ac awdurdodau lleol Cymru wahanol safbwyntiau ar hyn, a pwysleisiaf nad ‘mater Cyngor Gwynedd’ yw hwn. Ynghyd â rhanbarthau eraill ar olion traed pob bwrdd iechyd, mae rhanbarth gogledd Cymru wedi sefydlu datrysiad pragmataidd i’r broblem gyllideb gyfun a grëwyd gan ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**4.** Tra’n ymddangos yn hurt tu allan i’w gyd-destun, mae’r camau pragmataidd a gymerir yma’n caniatáu i awdurdodau lleol y rhanbarth hwn gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf. Roedd y ddeddfwriaeth hynny’n creu pryder am atebolrwydd a nodwyd risg y byddai'r gyllideb cyfun yn rhy fawr i'w reoli'n effeithiol.

**5.** Yn ymarferol, mae cyfnewid arian bob chwarter yn darparu gwerth am arian trwy osgoi pasio rheolaeth dros ran sylweddol o gyllidebau ein hawdurdodau. Mae hefyd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, ac yn adnabod maint y gweithrediadau perthnasol ar draws y rhanbarth. Yn anffodus, mae'r ddeddfwriaeth genedlaethol yn rhoi'r drol (cyllideb cyfun) o flaen y ceffyl (trefniadau gweithio cwbl integredig a llywodraethu priodol), tra bod yr ymateb rhanbarthol yn isafu'r risg yn ddoeth.

**6.** Rwy'n gobeithio bod yr eglurhad hwn yn helpu aelodau'r pwyllgor i ddeall y rhesymau y tu ôl i ddatrysiad pragmatig ein rhanbarth. Ymhellach, hyderaf y bydd aelodau'r pwyllgor yn gwerthfawrogi y byddai angen i ni ailystyried cytundebau rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd mewn sawl rhanbarth o Gymru cyn gweithredu unrhyw newid, yn ogystal ag ail-gynnau trafodaethau sensitif gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru.

## 7. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi sefyllfa awdurdodau lleol a bwrdd iechyd y rhanbarth, ymhellach i lythyrau yr Archwilydd Cyffredinol.